Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: ATISN 14742
Dyddiad: 5/2/2021

Annwyl

ATISN 14742

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 9 Ionawr 2021. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Faint o staff cyfredol eich sefydliad sydd â'u cyfeiriad cartref mewn awdurdod lleol y tu allan i Gymru.

2. Faint o staff cyfredol uwch dim rheoli/tim arwain/tim gweithredol neu gyfatebol eich sefydliad yn benodol sydd â'u cyfeiriad cartref mewn awdurdod lleol y tu allan i Gymru.

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr cydnabod, dyddiedig 25 Ionawr, dehonglwyd bod ail ran eich cais yn cyfeirio at Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Gan nad wyf wedi derbyn unrhyw ohebiaeth yn dweud nad oedd ein dehongliad yn gywir, dyna'r wybodaeth sydd wedi'i darparu.

	Uwch Wasanaeth Sifil	Staff eraill	Cyfanswm
Cyfanswm yr unigolion	169	5,603	5,772
Cyfeiriad cartref y tu allan i Gymru	21	112	133

Staff Llywodraeth Cymru ar 31 Rhagfyr 2020

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir